CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 14 Mai 2019 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa Felinheli am 6:30 yn yr hwyr.

YN BRESENNOL

Daniel Williams	Eifion Williams
Casi Roberts	Nerys John
Iwan Huws	
Swyddog Ariannol: Wynne Barton	Cynghorydd Sir Gareth Griffiths

1.0	**GAIR O GROESO A SYLWADAU AGORIADOL**	
	Agorwyd y cyfarfod gan y Clerc esboniodd bod y Cyngor yn dechrau blwyddyn newydd a bod angen Cadeirydd. Diolchodd y Cynghorydd Nerys John i'r Cynghorydd Daniel Williams am ei wasanaeth.	
2.0	**ETHOL CADEIRYDD**	
	Dywedodd bod enw wedi cael ei gynnig ac eilio a bod y person hwnnw yn barod i gadeirio. Roedd pawb yn gytûn. Etholwyd y Cynghorydd Iwan Huws fel Cadeirydd ac fe gymerodd ei le ar ben y bwrdd.	
3.0	**YMDDIHEURIADAU**	
3.1	Iestyn Harris, Mei Gwilym, Einir Coates, Aled Emyr, Gruff John, Sarah Riley	
4.0	**DERBYN CWESTIYNAU ODDI WRTH AELODAU O'R CYHOEDD**	
	Nid oedd aelodau o'r gymuned yn bresennol.	
5.0	**ETHOL IS-GADEIRYDD**	
	Eglurodd y Cadeirydd bod angen ethol Is-Gadeirydd. Nid oedd enw wedi cael ei gynnig. Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams y byddai yn barod i fod yn is-gadeirydd os byddai hynny yn dderbyniol ac o gymorth i'r Cyngor. Roedd yr aelodau yn gytûn. Etholwyd y Cynghorydd Daniel Williams fel is-gadeirydd	
6.0	**ANERCHIAD Y CYN-GADEIRYDD**	
	Diolchodd y Cadeirydd newydd i'r Cynghorydd Daniel Williams am ei wasanaeth hir fel Cadeirydd a'i wahodd i anerchu'r Cyngor. Diolchodd Y Cynghorydd Daniel Williams i'r aelodau am eu gwasanaeth. Diolchodd am yr holl weithgareddau yn enwedig ar y prosiectau sydd yn gwella mwynderau'r pentref. Mae pethau yn symud ymlaen. Diolchodd am y cydweithio ac yn edrych ymlaen at barhau i gydweithio. Dymunodd pob lwc i'r Cynghorydd Iwan Huws yn ei Gadeiryddiaeth.	
6.1	**ANERCHIAD Y CADEIRYDD**	
	Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyn cadeirydd am ei waith hir iawn yn gwasanaethu'r Cyngor. Dywedodd ei fod yn dilyn aelodau gweithgar a ffyddlon. Nid oedd ganddo unrhyw weledigaeth wahanol i'r Cyngor ond ei fod eisiau gweld cynnydd yn y ffordd mae'r Cyngor yn gweithredu. Gobeithir bydd yr is-bwyllgorau yn gallu ystyried materion a dod ac argymhellion i'r Cyngor llawn ar gyfer cadarnhad. Roedd hefyd am weld newid i'r Safonau statudol bod Cadeirydd dim yn y swydd am fwy na	

	blwyddyn, dwy ar y mwyaf a bod is-gadeirydd yn symud i'r swydd Cadeirydd yn naturiol.	
7.0	**APWYNTIO CYNRYCHIOLWYR**	
7.1	**Llywodraethwyr yr Ysgol** - mae'r Cynghorydd Iestyn Harris ar hyn o bryd yn Gadeirydd y Bwrdd Llywodraethwyr ac oherwydd hyn roedd yr aelodau am ei weld yn parhau i gynrychioli'r Cyngor.	
7.2	**Clwb Pêl Droed Ieuenctid** – etholwyd Gruff John fel cynrychiolydd.	
7.3	**Unllais Cymru** - Cynrychiolir y Cyngor ar Unllais Cymru gan Iestyn Harris a Nerys John.	
8.0	**ETHOL AELODAU A'R IS-BWYLLGORAU**	
8.1	**Llwybrau a Lon Las** - Dewiswyd Nerys John, Gruff John a Mei Gwilym ar yr Is-Bwyllgor	
8.2	**Mynwent, Maes Parcio, Safle Moria** - Dewiswyd Casi Roberts ac Eifion Williams	
8.3	**Priffyrdd, Meinciau a Cysgodfannau –** Dewiswyd Daniel Williams, Mei Gwilym	
8.4	**Prosiectau Cymunedol** - Dewiswyd - Nerys John, Casi Roberts ac Elliw Williams.	
8.5	**Gwefan –** Dewiswyd Casi Roberts, Elliw Williams, Mei Gwilym	
8.6	**Cyflogaeth –** Dewiswyd Daniel Williams, Iestyn Harris	
8.7	**Polisïau -** Dewiswyd Iestyn Harris ac Iwan Huws	
8.8	**Neuadd Goffa a Cloc –** Dewiswyd Daniel Williams, Casi Roberts, Mei Gwilym	
9.0	**PENDERFYNU AR NOSON A DYDDIADAU CYFARFODYDD MISOL Y CYNGOR**	
	Penderfynwyd parhau a'r trefniad cyfarfod misol presennol gyda gwyliau ym Mis Awst.	
10.0	**SEDDI GWAG**	
	Mae dwy sedd wag ar y Cyngor. Y Clerc i wneud trefniadau i hysbysu'r achos er mwyn dod o hyd i gynrychiolwyr newydd.	
11.0	**ARCHWILIWR MEWNOL**	
	Cadarnhawyd bod Eluned Fôn Jones o Gyngor Gwynedd wedi ei apwyntio fel archwiliwr mewnol. Mae llythyr apwyntiad gyda manylder yr hyn sydd ei angen eisoes wedi ei anfon a'i dderbyn.	
12.0	**ADRODDIAD CYLLID**	
12.1	Cyflwynwyd yr Adroddiad Cyllidol 01/04/2018 - 31/03/2019 gan y Swyddog Ariannol. Cynigwyd ac eiliwyd yr adroddiad fel un cywir ac fe'i derbyniwyd a'u mabwysiadu yn unfrydol gan y Cyngor.	
13.0	**POLISÏAU'R CYNGOR**	
	Fe wnaethpwyd newidiadau i'r canlynol a'u mabwysiadau: Llawlyfr y Cyngor Safonau statudol Fe fabwysiadwyd y canlynol: Rheoliadau Ariannol	

	Asesiadau Risg Rheolaeth fewnol Polisi Iaith Diogelu Data (bydd y polisi hwn yn derbyn newidiadau ychwanegol dros y flwyddyn sydd i ddod) Datganiad Preifatrwydd Rhyddid Gwybodaeth	
14.0	**ADRODDIAD PWYLLGOR CYFLOGAETH**	
	Nid yw'r pwyllgor cyflogaeth wedi cyfarfod hyd yma.	
	Daeth y Cyfarfod Blynyddol i ben oddeutu 7.10 o'r gloch.	